Senedd Cymru
Ymchwil y Senedd

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Adroddiad Monitro

Tachwedd 2021

Cynnwys

1. Cyflwyniad 2

2. Cytundebau rhwng y DU a'r UE 2

2.1. Y Cytundeb Ymadael 2

Y Protocol ar Iwerddon/Gogledd Iwerddon 2

Hawliau dinasyddion 5

2.2. Y Cytundeb Masnach a Chydweithredu 6

2.3. Ymgysylltiad y Senedd: Pwyllgor y Rhanbarthau – Grŵp Cyswllt y DU 9

3. Ymwahanu trefniadau'r DU a'r UE 10

4. Deddf Marchnad Fewnol y DU 11

5. Fframweithiau cyffredin 11

6. Cysylltiadau rhynglywodraethol 11

7. Deddfwriaeth 12

7.1. Cydsyniad deddfwriaethol 12

7.2. COVID-19 13

8. Y cyfansoddiad 13

8.1. Y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru 13

Aelodau'r Comisiwn 14

Amcanion y Comisiwn 14

Arferion gwaith 15

8.2. Ad-drefnu Llywodraeth y DU: manylion y newidiadau i'r llywodraeth 15

8.3. Dyfarniad y Goruchaf Lys: cymhwysedd deddfwriaethol 15

Cefndir 16

Darpariaethau a ystyriwyd gan y Goruchaf Lys 16

Dadansoddiad 17

9. Cyfiawnder 18

9.1. Llywodraeth Cymru 18

9.2. Llywodraeth y DU 19

9.3. Tribiwnlysoedd Cymru 19

1. Cyflwyniad

Mae gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad gylch gwaith eang sy'n cwmpasu amrywiaeth o feysydd. Bwriad yr adroddiad monitro hwn yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau'r Pwyllgor am ddatblygiadau polisi allweddol sy'n gysylltiedig â chylch gwaith y Pwyllgor.

Bydd y Pwyllgor yn ystyried y materion hyn ac unrhyw gamau y mae'n dymuno eu cymryd wrth ymateb iddynt. Mae'r adroddiad hwn yn cael ei gyhoeddi er mwyn rhoi gwybod i randdeiliaid am rai o'r materion y mae'r Pwyllgor wrthi'n eu trafod ar hyn o bryd.

2. Cytundebau rhwng y DU a'r UE

2.1. Y Cytundeb Ymadael

Y Protocol ar Iwerddon/Gogledd Iwerddon

Ar hyn o bryd mae'r DU a'r UE yn cynnal trafodaethau â'r nod o ddatrys materion parhaus y Protocol ar Iwerddon a Gogledd Iwerddon. Mae'r ddwy ochr wedi cyflwyno cynigion ar sut i symud ymlaen.

Cynigion yr UE

Ar 13 Hydref, cyhoeddodd Comisiwn yr UE gynigion anneddfwriaethol sydd wedi'u cynllunio i symleiddio'r gweithdrefnau o dan Brotocol Gogledd Iwerddon:

> Mae'r pecyn heddiw yn cynnig mwy o hyblygrwydd ym maes bwyd, iechyd planhigion ac anifeiliaid, tollau, meddyginiaethau ac ymgysylltu â rhanddeiliaid yng Ngogledd Iwerddon. Mae'n cynnig model gwahanol ar gyfer gweithredu'r Protocol, sy'n hwyluso llif nwyddau rhwng Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon i raddau helaeth ar gyfer y nwyddau hynny y bwriedir iddynt aros yng Ngogledd Iwerddon. Caiff llif y nwyddau hyn ei hwyluso drwy gyfres o fesurau diogelu a mwy o gamau i gadw golwg ar y farchnad er mwyn sicrhau nad yw'r nwyddau'n symud i Farchnad Sengl yr UE.

Mae'r cynigion yn galw am gytuno ar ateb parhaol ar y cyd cyn gynted â phosibl.

Mae'r UE wedi dweud dro ar ôl tro na fydd yn ailnegodi'r Protocol, ac felly mae'n cynnig y newidiadau a ganlyn fel man cychwyn ar gyfer trafodaethau dwys â'r DU dros yr wythnosau nesaf:

Diogelwch bwyd a rheolau ffytoiechydol: Mae'r Comisiwn yn cynnig ateb pwrpasol, y mae'n dweud fydd yn arwain at tua 80 y cant yn llai o wiriadau. Mae hyn yn dibynnu ar p'un a fydd y DU yn cwblhau'r gwaith o adeiladu safleoedd rheoli ffiniau newydd, ymhlith mesurau eraill. Mae cynnig yr UE yn cyflwyno'r posibilrwydd o fesurau unochrog gan yr UE rhag ofn i'r awdurdodau cymwys yn y DU neu'r masnachwr dan sylw fethu ag ymateb i broblem a nodwyd neu fethu â'i datrys. Felly, gallai masnachwyr ac awdurdodau yng Nghymru wynebu cosbau unochrog newydd posibl gan yr UE, yn ogystal â'r opsiynau presennol ar gyfer ad-daledigaeth a ddarperir gan ddarpariaethau eraill o dan y berthynas newydd rhwng y DU a'r UE pe bai'r cynigion hyn yn cael eu derbyn.

Cafodd tri o bwyllgorau'r Senedd eu cynnwys mewn gohebiaeth rhwng David Frost a Llywodraeth Cymru yn ddiweddar, a oedd yn disgrifio'r broses o adeiladu safleoedd rheoli ffiniau ym mhorthladdoedd Cymru fel 'un o'r rhaglenni cyflenwi seilwaith mwyaf a mwyaf cymhleth y mae Llywodraeth Cymru yn ymwneud ag ef'.

Tollau: Mae'r Comisiwn yn cynnig hyblygrwydd i hwyluso'r gwaith o symud nwyddau o Brydain Fawr i Ogledd Iwerddon, gan ddatgan y byddai hynny'n arwain at 50 y cant yn llai o waith papur, a chan ddisgrifio'r trefniant fel llwybr cyflym ('express lane'). Yn gyfnewid am hyn, byddai'r UE yn disgwyl, ymhlith mesurau eraill, mynediad i systemau tollau TGCh y DU a dyletswydd newydd ar awdurdodau tollau ac awdurdodau goruchwylio'r farchnad yn y DU i roi mesurau monitro a gorfodi ar waith.

Meddyginiaethau: Mae'r Comisiwn yn cynnig cyflenwad diogel di-dor hirdymor o feddyginiaethau sy'n symud o Brydain Fawr i Ogledd Iwerddon. Dywed yr UE fod angen trafodaethau pellach.

Llywodraethu: Mae'r Comisiwn yn cynnig gwell ymgysylltiad â rhanddeiliaid ac awdurdodau yng Ngogledd Iwerddon, gan gynnwys creu grwpiau strwythuredig a gwella cyfranogiad y grwpiau sy'n bodoli eisoes, megis cyfarfodydd Pwyllgor Arbenigol y Cytundeb Ymadael ar y Protocol. Mae'r cynigion hefyd yn creu cysylltiad cryfach rhwng Cynulliad Gogledd Iwerddon a Chynulliad Partneriaeth Seneddol yr UE a'r DU. Roedd y deddfwrfeydd datganoledig wedi cael cadarnhad gan ddau Dŷ Senedd y DU y byddent yn ystyried eu cynnwys yn y gwaith hwn.

Cynigion Llywodraeth y DU: y papur gorchymyn

Mae cynigion yr UE, a gyhoeddwyd ar 13 Hydref ac a ddisgrifir uchod, yn ymateb i bapur gorchymyn Llywodraeth y DU, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2021. Roedd y papur yn amlinellu cynigion i newid gweithrediad y Protocol mewn ffyrdd a fyddai'n golygu bod angen ailnegodi sawl elfen allweddol â'r UE.

Roedd yn awgrymu, pe na bai'r trafodaethau â'r UE ynghylch y newidiadau arfaethedig yn llwyddiannus, y gallai'r DU ddefnyddio Erthygl 16 o'r Protocol. Mae Erthygl 16 yn caniatáu i'r naill barti neu'r llall gymryd camau diogelu unochrog a/neu fesurau ailgydbwyso os yw'r Protocol yn achosi anawsterau economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol difrifol sy'n debyg o barhau, neu amrywiadau masnach. Mae'r Arglwydd David Frost wedi rhybuddio sawl tro ers hynny y bydd y DU yn defnyddio Erthygl 16 os na ellir dod i gytundeb. Ymatebodd llefarydd yr UE ar 5 Hydref na fyddai'r UE yn ymateb i'r sylwadau, ni waeth pa mor delynegol neu ymosodol yr oedd y sylwadau hynny.

Ymatebodd yr UE yn wreiddiol i'r papur gorchymyn gan ddatgan y dylid parhau i drafod y manylion technegol o ran sut i weithredu'r Protocol yn ymarferol, ond na fyddai'n ailnegodi ei delerau. Ym mis Medi, nododd ei fod yn gobeithio dod o hyd i ateb i'r materion parhaus erbyn diwedd y flwyddyn.

Mae'r ddau barti wedi cytuno i gyfres o drafodaethau dwys ynghylch eu cynigion priodol i ddiwygio Protocol Gogledd Iwerddon. Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf ym Mrwsel ar 15 Hydref a chynhaliwyd yr ail gyfres o drafodaethau yn Llundain yn ystod yr wythnos a ddechreuodd ar 25 Hydref.

Rhoddodd yr Arglwydd Frost dystiolaeth i'r Pwyllgor Materion Ewropeaidd yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 26 Hydref, gan ddweud bod y trafodaethau wedi bod yn adeiladol ond bod yna fylchau mawr o hyd. Dywedodd y byddai'r ddau barti yn ceisio dod i gytundeb cyn diwedd y flwyddyn.

Datblygiadau diweddaraf: deunydd darllen pellach

- Datganiad gan Maroš Šefčovič, Is-lywydd y Comisiwn Ewropeaidd, yn dilyn cyfarfod â'r Arglwydd David Frost ar 15 Hydref.
- Diweddariadau yr Arglwydd Frost i Dŷ'r Arglwyddi ar Gynigion yr UE, yr effaith ar fasnach, ac effaith ailnegodi ar drafodaethau masnach eraill (21 Hydref).
- Tystiolaeth yr Arglwydd Frost i Bwyllgor Craffu ar Faterion Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin (25 Hydref).

- Tystiolaeth yr Arglwydd Frost i Bwyllgor Materion Ewropeaidd Tŷ'r Arglwyddi (26 Hydref).
- Adroddiad y New York Times ar sut mae'r Arlywydd Biden yn dilyn y negodiadau.

Hawliau dinasyddion

Yn dilyn ymadawiad y DU â'r UE, rhaid i ddinasyddion Ewrop a oedd yn byw yng Nghymru cyn 31 Rhagfyr 2020 fod wedi gwneud cais i aros erbyn 30 Mehefin 2021. Ers iddo gael ei lansio, mae dros 6.1 miliwn o geisiadau wedi cael eu cyflwyno i Gynllun Preswylio'n Sefydlog Llywodraeth y DU i Ddinasyddion yr UE (y Cynllun Preswylio). Mae ymgeiswyr llwyddiannus yn cael statws naill ai 'preswylydd sefydlog' neu 'breswylydd cyn sefydlu'.

Mae Ymchwil y Senedd wedi cyhoeddi ei ddadansoddiad o'r data diweddaraf sydd ar gael, gan gynnwys map rhyngweithiol, ar 6 Hydref.

Ar 20 Hydref, cyhoeddodd Jane Hutt, Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol Llywodraeth Cymru, y bydd cyllid ar gyfer gwasanaeth cyngor a chymorth am ddim Llywodraeth Cymru i ddinasyddion Ewrop yn parhau hyd at 'o leiaf' fis Mawrth 2022.

Trafodaethau rhwng y DU a'r UE ar hawliau dinasyddion

Ar 16 Medi, cyhoeddodd Pwyllgor Arbenigol y DU a'r UE ar Hawliau Dinasyddion ddatganiad ar y cyd yn sôn am gynnydd a wnaed ar nifer o faterion gweithredu parhaus, gan gynnwys camgymhwyso'r Cytundeb Ymadael yn y DU ac Aelod-wladwriaethau'r UE. Cytunodd y Pwyllgor i gyfarfod eto ym mis Rhagfyr 2021, pan fydd yn trafod yr Adroddiad nesaf ar y Cyd (sef y chweched adroddiad o'r fath).

Gweithgarwch y Senedd

Mae'r Cynllun Preswylio o fewn cylch gwaith Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol y Senedd. Cyhoeddodd y Pwyllgor ei adroddiad cyntaf ar y cynllun ar 22 Hydref 2021 a bydd yn parhau i fonitro hawliau dinasyddion yng Nghymru, gan gyhoeddi adroddiadau rheolaidd.

2.2. Y Cytundeb Masnach a Chydweithredu

Mae'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn sefydlu 23 o Bwyllgorau a Gweithgorau newydd ar gyfer y DU a'r UE i oruchwylio'r gwaith o weithredu a chymhwyso'r Cytundeb. Y prif gorff yw'r Cyngor Partneriaeth, sy'n goruchwylio'r Cytundeb, ac fe'i cefnogir gan:

- 11 o Bwyllgorau Masnach, sy'n cynnwys un Pwyllgor Partneriaethau Masnach a 10 o Bwyllgorau Masnach Arbenigol
- wyth Pwyllgor Arbenigol ar feysydd ar wahân i fasnach, megis ynni a thrafnidiaeth
- pedwar Gweithgor ar faterion penodol, megis cynhyrchion meddyginiaethol.

Hyd yma, cafwyd cyfarfodydd rhwng y DU a'r UE ar y materion a ganlyn:

- nawdd cymdeithasol (6 Gorffennaf)
- ynni (14 Gorffennaf)
- pysgodfeydd (20 Gorffennaf)
- mesurau iechydol a ffytoiechydol (22-23 Medi)
- cydweithredu â thollau a rheolau tarddiad (7 Hydref)
- nwyddau (8 Hydref)
- gwasanaethau, buddsoddi a masnach ddigidol (11 Hydref)
- caffael cyhoeddus (12 Hydref)
- chwarae teg ar gyfer cystadleuaeth agored a theg (12 Hydref)
- eiddo deallusol (13 Hydref)
- cydweithredu rheoleiddiol (13 Hydref)
- trafnidiaeth awyr (14 Hydref)
- rhwystrau technegol i fasnach (15 Hydref)
- gorfodi'r gyfraith a chydweithredu barnwrol (19 Hydref).

Roedd dirprwyaeth y DU yn cynnwys swyddogion o Lywodraeth Cymru ar gyfer y cyfarfodydd ar gydgysylltu nawdd cymdeithasol, ynni a physgodfeydd. Nid yw'r wybodaeth am y rhai a oedd yn bresennol yn y cyfarfodydd sy'n weddill ar gael i'r cyhoedd eto.

Mater i'r DU a'r UE yw dethol eu priod ddirprwyaethau ar gyfer pob cyfarfod. Ar 1 Gorffennaf, cadarnhaodd Llywodraeth y DU y bydd ei dirprwyaethau'n amrywio o ran nifer, yn dibynnu ar yr agenda. Nid yw'n glir a gaiff Llywodraeth Cymru ei chynrychioli yn y dyfodol ai peidio, na sut y gwneir hynny.

Cytunwyd ar ddyddiadau ar gyfer yr holl Bwyllgorau a Gweithgorau eraill nad ydynt wedi cyfarfod eto ac eithrio'r pwyllgor arbenigol ar raglenni ariannu'r UE.

Yr anghydfod rhwng Ffrainc a'r DU ynghylch pysgodfeydd

Cafwyd anghydfod hir ynghylch rhoi trwyddedau i longau o Ffrainc bysgota yn nyfroedd y DU ar ôl diwedd y cyfnod pontio.

Ar 27 Hydref, cyhoeddodd Llywodraeth Ffrainc ddatganiad (Ffrangeg yn unig) yn dweud ei bod yn bwriadu cymryd camau ad-daledigol yn erbyn y DU. Mae wedi datgan nad yw'n credu bod y DU yn cydymffurfio â'i rhwymedigaethau o dan y Cytundeb Masnach a Chydweithredu ac mae wedi galw ar y Comisiwn Ewropeaidd i gynnull cyfarfod o'r Cyngor Partneriaeth cyn gynted â phosibl. Mae hefyd wedi galw ar yr UE i ystyried defnyddio mesurau ad-daliadol a ganiateir o dan Erthygl 506 o'r Cytundeb hwnnw. Mae'r erthygl hon yn caniatáu i'r naill barti neu'r llall gymryd rhai mesurau ad-daliadol os yw'n credu bod y parti arall yn torri ei rhwymedigaethau o ran pysgodfeydd o dan y Cytundeb Masnach a Chydweithredu.

Mae Llywodraeth y DU wedi datgan nad yw'n credu bod gweithredoedd Llywodraeth Ffrainc yn cyd-fynd â'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu na chyfraith ryngwladol ehangach. Dywedodd y bydd yn mynegi'r pryderon hyn i Gomisiwn yr UE a Llywodraeth Ffrainc.

Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae'r trafodaethau'n parhau rhwng Llywodraeth y DU, Llywodraeth Ffrainc a'r Comisiwn Ewropeaidd ynghylch y materion hyn.

Cynulliad Partneriaeth Seneddol y DU a'r UE

Ar 5 Hydref, cytunodd Senedd Ewrop yn ffurfiol i benodi ei dirprwyaeth i Gynulliad Partneriaeth Seneddol y DU a'r UE. Mae'r Cynulliad yn cael ei sefydlu o dan y Cytundeb Masnach a Chydweithredu.

Mae Erthygl 11 o'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn darparu y caiff Senedd y DU a Senedd Ewrop sefydlu Cynulliad Partneriaeth Seneddol. Mae'r cytundeb yn

darparu y bydd y Cynulliad Partneriaeth Seneddol yn gallu ystyried sut mae'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn cael ei weithredu, gofyn am ddogfennau gan Gyd-gyngor Partneriaeth y DU a'r UE a gwneud argymhellion ynghylch gweithredu'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu i'r corff hwn. Y Cyd-gyngor Partneriaeth yw'r corff a sefydlwyd rhwng y DU a'r UE o dan y Cytundeb Masnach a Chydweithredu i oruchwylio'r gwaith o weithredu'r Cytundeb.

Bydd dirprwyaeth Senedd Ewrop yn cynnwys 35 o aelodau.

Ar 25 Awst, ysgrifennodd y Pwyllgor hwn ar y cyd â'r pwyllgorau cyfatebol yn yr Alban a Gogledd Iwerddon at yr Arglwydd Kinnoull, Cadeirydd Pwyllgor Materion Ewropeaidd Tŷ'r Arglwyddi, a Syr Oliver Heald, cynrychiolydd Tŷ'r Cyffredin ar y Cynulliad Partneriaeth Seneddol, yn gofyn iddynt ymgynghori â'r pwyllgorau datganoledig ar sefydlu dirprwyaeth y DU i'r Cynulliad Partneriaeth Seneddol cyn penodi'r aelodau.

Ymatebodd yr Arglwydd Kinnoull a Syr Oliver Heald ar 21 Medi yn dweud y byddent yn ceisio cynnwys y deddfwrfeydd datganoledig yng ngwaith y Cynulliad Partneriaeth Seneddol.

Y Fforwm Cymdeithas Sifil a Grwpiau Cynghori Domestig

Mae Erthyglau 12-14 o'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn darparu ar gyfer sefydlu mecanweithiau i gynnwys y gymdeithas sifil wrth roi'r Cytundeb ar waith. Mae Erthygl 13 yn ei gwneud yn ofynnol i'r DU a'r UE ymgynghori â Grwpiau Cynghori Domestig sydd newydd eu creu neu sy'n bodoli eisoes ar faterion a gwmpesir gan y Cytundeb Masnach a Chydweithredu neu unrhyw gytundebau atodol. Mae'r DU a'r UE yn gyfrifol am benodi eu Grwpiau eu hunain, rhaid iddynt ymgynghori â hwy o leiaf unwaith y flwyddyn, a rhaid iddynt ystyried y safbwyntiau a/neu'r argymhellion a wneir gan y Grwpiau hyn.

Mae Erthygl 14 yn darparu y bydd y DU a'r UE hefyd yn sefydlu Fforwm Cymdeithas Sifil ar y cyd i ystyried rhoi Rhan Dau o'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu ar waith. Fel arfer, bydd yn cyfarfod o leiaf unwaith y flwyddyn.

Mae Llywodraeth y DU wedi bod yn ymgynghori ar egwyddorion a chynigion eang ar gyfer ymgysylltu â chymdeithas sifil yn y DU, ar greu Fforwm Cymdeithas Sifil ac ar Grŵp Cynghori Domestig. Yn eu hymateb ar y cyd i'r ymgynghoriad ar flaenoriaethau strategol Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol y Chweched Senedd, mae Canolfan Llywodraethiant Cymru a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru yn dweud:

> Given the intersections between the TCA and devolved competence, it is important that UK representation in these structures is inclusive of perspectives from Wales. However it is unclear at the moment how this will take place.

Cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei hymateb i'r ymgynghoriad ar 19 Hydref. Mae hefyd wedi gofyn am ddatganiadau o ddiddordeb i fod yn aelod o'r Grŵp Cynghori Domestig. Gellir cyflwyno datganiadau o ddiddordeb hyd at 9 Tachwedd.

Yng nghrynodeb Llywodraeth y DU o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, nodwyd y prif faterion a ganlyn:

- pa mor aml y cynhelir cyfarfodydd y Grŵp Cynghori Domestig;
- yr angen am dryloywder ac atebolrwydd ynghylch sut y mae'r Grŵp Cynghori Domestig a'r Fforwm Cymdeithas Sifil yn gweithredu; a
- pa mor bwysig ydyw bod gan y ddau fforwm gynrychiolwyr o bob sector, cynrychiolwyr o bedair gwlad y DU a bod gan yr aelodau y wybodaeth dechnegol berthnasol.

2.3. Ymgysylltiad y Senedd: Pwyllgor y Rhanbarthau – Grŵp Cyswllt y DU

Cynhaliwyd pumed cyfarfod Pwyllgor y Rhanbarthau – Grŵp Cyswllt y DU ar 5 Hydref. Cynrychiolwyd y Senedd gan David Rees AS, y Dirprwy Lywydd. Mae'r Senedd yn aros i ddau Aelod newydd o'r Senedd gael eu penodi i'r grŵp yn dilyn yr etholiad ym mis Mai.

Trafodwyd materion sy'n ymwneud â'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu, gan gynnwys:

- trafod â Richard Szostak, Cyfarwyddwr Gwasanaethau dros dro Cytundeb y DU a'r UE yn y Comisiwn Ewropeaidd, ynghylch gweithredu a llywodraethu'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu a Phrotocol Gogledd Iwerddon;
- trafod ag Andreas Schieder ASE ynghylch rôl deddfwrfeydd datganoledig a rhanbarthau a dinasoedd Ewropeaidd yng Nghynulliad Partneriaeth Seneddol y DU a'r UE.

3. Ymwahanu trefniadau'r DU a'r UE

Ar 16 Medi, cyhoeddodd Michael Ellis AS, Tâl-feistr Cyffredinol Llywodraeth y DU, a'r Arglwydd Frost, y Gweinidog Gwladol yn Swyddfa'r Cabinet, gamau nesaf rhaglen diwygio rheoleiddiol Llywodraeth y DU.

Sefydlodd Llywodraeth y DU Dasglu ar Arloesi, Twf a Diwygio Rheoleiddio ym mis Chwefror 2021 i nodi a chynnig newidiadau i system reoleiddio'r DU ar ôl gadael yr UE. Adroddodd y Tasglu ei ganfyddiadau i Lywodraeth y DU ym mis Mehefin 2021. Mae Llywodraeth y DU wedi bod yn ymgynghori ar rai o'r newidiadau arfaethedig a awgrymwyd gan y Tasglu ond mae bellach wedi cyhoeddi rhagor o fanylion am ei raglen diwygio rheoleiddiol.

Yn ei lythyr at Gadeirydd y tasglu, Syr Iain Duncan Smith, cyhoeddodd yr Arglwydd Frost y byddai Llywodraeth y DU yn:

- nodi manylion cyfres o ddiwygiadau cyfredol a darpar ddiwygiadau;
- cynnal adolygiad cynhwysfawr o statws a chynnwys y gyfraith a ddargedwir gan yr UE; a
- sefydlu comisiwn sefydlog newydd ar ddiwygio rheoleiddio.

Mae'r llythyr a'r datganiad cysylltiedig yn nodi rhai o fanylion y cynigion presennol ar gyfer diwygio rheoleiddio. Er bod llawer yn ymwneud â meysydd a gedwir yn ôl, mae rhai naill ai'n dod o fewn meysydd polisi datganoledig neu'n debygol o gael effaith sylweddol arnynt.

Yn ei ddatganiad i Dŷ'r Cyffredin, rhoddodd y Tâl-feistr Cyffredinol ragor o wybodaeth am yr hyn y byddai'r adolygiad o'r gyfraith a ddargedwir gan yr UE yn ei olygu. Nododd y bydd Llywodraeth y DU yn gwneud fel a ganlyn:

- dileu statws arbennig y gyfraith a ddargedwir gan yr UE fel nad yw bellach yn gategori penodol o gyfraith ddomestig y DU;
- sicrhau y gall pob llys wyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE yn unol â'r rheolau arferol; ac
- adolygu cynnwys yr holl gyfraith a ddargedwir gan yr UE, a diddymu neu ddisodli darnau penodol o gyfraith a ddargedwir gan yr UE drwy ddulliau deddfwriaethol, gan gynnwys ystyried mecanwaith deddfwriaethol i gyflymu'r broses hon.

Yn ei dystiolaeth i'r Pwyllgor hwn ar 20 Medi, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol mai cam cynnar o'r adolygiad oedd hyn, a bod y swyddogion yn gwybod bod cyhoeddiad ar ddod ar ddiwygio rheoleiddio ond nad oedd Llywodraeth Cymru wedi cael dim arwydd o union amseriad y cyhoeddiad hwnnw. Dywedodd y bu rhywfaint o ymgysylltu penodol ag adrannau polisi Llywodraeth Cymru ynglŷn â materion penodol sy'n effeithio ar feysydd datganoledig, megis digideiddio tystysgrifau iechyd allforio.

4. Deddf Marchnad Fewnol y DU

Mae Pwyllgor Cyfansoddiad, Ewrop, Materion Allanol a Diwylliant Senedd yr Alban wedi lansio ymchwiliad i drafod goblygiadau Deddf Marchnad Fewnol y DU i'r Alban, gan gynnwys y goblygiadau o ran sut y mae datganoli'n gweithio. Fel rhan o'r ymchwiliad, trafodir y meysydd a ganlyn:

- sut y mae'r trefniadau cyfansoddiadol newydd sy'n deillio o farchnad fewnol y DU yn effeithio ar ddatganoli;
- beth mae sefydlu marchnad fewnol y DU a natur gynyddol gydgysylltiedig datganoli yn ei olygu i gysylltiadau rhynglywodraethol a rhyngseneddol, gan gynnwys y cyfleoedd a'r heriau posibl; a
- effaith Cytundeb Masnach a Chydweithredu'r DU a'r UE a chytundebau masnach dwyochrog eraill ar weithrediad marchnad fewnol y DU a datganoli.

Cyhoeddodd y Pwyllgor ganllawiau hefyd ar Ddeddf Marchnad Fewnol y DU ar gyfer y pwyllgorau pwnc.

5. Fframweithiau cyffredin

Cyhoeddodd Llywodraeth y DU bedwar fframwaith cyffredin ar gyfer meysydd polisi a ddatganolwyd i Ogledd Iwerddon yn unig ar 30 Medi, ar ôl i Weithrediaeth Gogledd Iwerddon ddod i gytundeb dros dro. Ni chyhoeddwyd unrhyw fframweithiau cyffredin pellach sy'n gorgyffwrdd â chymhwysedd datganoledig Cymru.

6. Cysylltiadau rhynglywodraethol

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei hadroddiad blynyddol ar gysylltiadau rhynglywodraethol ym mis Medi, yn unol â'r cytundeb cysylltiadau

rhyngsefydliadol rhwng Llywodraeth Cymru a'r Senedd. Mae'r Pwyllgor a Llywodraeth Cymru wrthi'n ailnegodi'r cytundeb hwn ar gyfer y Senedd newydd.

Mae'r adroddiad blynyddol yn ymdrin ag ymgysylltu rhwng gweinidogion ar draws portffolios Llywodraeth Cymru, gan gynnwys yr ymateb i COVID-19, diwedd cyfnod pontio'r UE, cysylltiadau rhyngwladol a chytundebau masnach rydd.

Er y gwelwyd rhai 'enghreifftiau defnyddiol' o weithio rhynglywodraethol, mae'n dadlau bod angen 'ailosod' y cysylltiadau rhynglywodraethol yn gyffredinol.

7. Deddfwriaeth

7.1. Cydsyniad deddfwriaethol

Mae Llywodraeth Cymru bellach wedi gosod memoranda cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer 14 o filiau'r DU yn y Senedd hon. Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn argymell na ddylid rhoi cydsyniad (yn llawn neu'n rhannol) i saith o'r biliau hyn. Mae'r Pwyllgor wedi parhau i drafod Gorchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol a chyflwyno adroddiadau arnynt.

Pleidleisiodd y Senedd i beidio â rhoi cydsyniad ar gyfer y Bil Cymwysterau Proffesiynol ar 5 Hydref. Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud ei bod yn parhau i geisio diwygiadau i'r Bil.

Mae'r tabl hwn yn rhoi crynodeb o safbwynt presennol Llywodraeth Cymru ar gydsyniad. Gall ei safbwynt newid wrth i filiau symud drwy'r broses ddeddfwriaethol yn Senedd y DU.

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol	Argymhelliad Llywodraeth Cymru i'r Senedd o ran rhoi cydsyniad
Bil y Lluoedd Arfog	Ie
Y Bil Diwygio Cyfraith Lesddaliad (Rhent Tir)	Ie
Y Bil Diogelwch Adeiladau	Ie
Y Bil Ardrethu (Coronafeirws) ac Anghymhwyso Cyfarwyddwyr (Cwmnïau a Ddiddymwyd)	Ie
Bil Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus a Swyddi Barnwrol	Ie
Bil yr Amgylchedd	Ie
Bil Lles Anifeiliaid (Anifeiliaid a Gedwir)	Ie*

Bil yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd	Yn rhannol
Y Bil Sgiliau ac Addysg Ôl-16	Yn rhannol
Bil yr Asiantaeth Ymchwil a Dyfeisio Blaengar	Na
Y Bil Cymwysterau Proffesiynol	Na
Y Bil Rheoli Cymorthdaliadau	Na
Y Bil Iechyd a Gofal	Na
Y Bil Etholiadau	Na
	**yn amodol ar drafodaeth bellach*

7.2. COVID-19

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi'r wybodaeth ddiweddaraf am ei hymateb deddfwriaethol i bandemig COVID-19 rhwng 10 Awst 2020 a 31 Awst 2021. Mae'r wybodaeth hon yn cynnwys y meysydd a ganlyn:

- y defnydd o bwerau Gweinidogion Cymru o dan Ddeddf Coronafeirws 2020;
- pa rai o ddarpariaethau Deddf 2020 oedd mewn grym;
- y prif reoliadau ar gyfyngiadau COVID-19 a gyflwynwyd o dan Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984; a
- darnau eraill o is-ddeddfwriaeth berthnasol.

Cyflwynodd Pwyllgor Cyfiawnder Tŷ'r Cyffredin adroddiad ar COVID-19 a chyfraith trosedd ym mis Medi (gan ganolbwyntio ar Loegr).

8. Y cyfansoddiad

8.1. Y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru

Mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi cyhoeddi cyd-gadeiryddion ac amcanion cyffredinol y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru (y Comisiwn).

Rhoddwyd crynodeb o gefndir y Comisiwn a'r manylion cychwynnol am ei waith yn ein hadroddiad monitro ym mis Medi.

Aelodau'r Comisiwn

Cyhoeddwyd mai'r Athro Laura McAllister a Dr Rowan Williams fydd cyd-gadeiryddion y Comisiwn.

Yr Athro McAllister oedd cadeirydd y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad yn flaenorol ac erbyn hyn mae'n gweithio gyda Chanolfan Llywodraethiant Cymru ym Mhrifysgol Caerdydd fel athro polisi cyhoeddus a llywodraethu.

Mae Dr Rowan Williams wedi cyflawni rôl Archesgob Cymru ac Archesgob Caergaint.

Bydd y Comisiwn yn cynnwys y cyd-gadeiryddion a naw aelod ychwanegol sy'n 'cwmpasu ystod eang o safbwyntiau gwleidyddol a rhannau o gymdeithas Cymru'.

Disgwylir i'r aelodau eraill gael eu cyhoeddi ym mis Tachwedd 2021.

Amcanion y Comisiwn

Mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi cyhoeddi bod gan y Comisiwn ddau amcan cyffredinol:

- ystyried a datblygu opsiynau i ddiwygio'n sylfaenol strwythurau cyfansoddiadol y Deyrnas Unedig, y mae Cymru yn parhau'n rhan annatod ohoni;
- ystyried a datblygu'r holl brif opsiynau blaengar i gryfhau democratiaeth Cymru a sicrhau gwelliannau i bobl Cymru.

Mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi dweud ei fod yn 'fodlon bod yr amcanion cyffredinol yn taro'r cydbwysedd cywir rhwng cyfarwyddo gwaith y comisiwn annibynnol, a rhoi'r rhyddid iddyn nhw ddatblygu argymhellion yn annibynnol ar y Llywodraeth'.

Bydd y Comisiwn yn 'edrych ar y gyfres gyfan o wahanol fathau o ddyfodol cyfansoddiadol posibl i Gymru'. Yn hyn o beth, mae'r Prif Weinidog wedi dweud nad oes yr un opsiwn yn cael ei ddiystyru ac mae'r Athro McAllister wedi dweud mai'r bwriad yw ystyried pob opsiwn.

Fodd bynnag, mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi awgrymu ei bod 'efallai'n gamgymeriad canolbwyntio ar opsiynau unigol penodol' fel annibyniaeth, ffederaliaeth, ffederaliaeth radical neu unoliaeth. Yn hytrach, awgrymodd y dylid cychwyn drwy geisio sicrhau 'newid a fydd o fudd i bobl Cymru, a fydd yn dod â

phenderfyniadau'n nes at bobl, i roi mwy o reolaeth i bobl dros y penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau'.

Arferion gwaith

Bydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r Comisiwn a bydd modd i'r Comisiwn fanteisio ar adnoddau'r Llywodraeth i gyflawni ei waith, ond bydd yn annibynnol arni. Bydd y cyd-gadeiryddion a'r aelodau yn pennu eu cyfeiriad eu hunain. Bydd ysgrifenyddiaeth a phanel o arbenigwyr hefyd yn cefnogi'r Comisiwn.

Mae'r Prif Weinidog wedi dweud mai mater i'r Comisiwn fydd penderfynu ar ei ddull o ymgysylltu â dinasyddion. Ar ôl iddo gael ei sefydlu, bydd yn datblygu cynllun strategol o ran sut y bydd yn ymgysylltu â phobl Cymru a'r ystod o safbwyntiau gwahanol sy'n bodoli.

Disgwylir i'r Comisiwn baratoi adroddiad interim erbyn diwedd 2022, ac adroddiad llawn gydag argymhellion erbyn diwedd 2023.

8.2. Ad-drefnu Llywodraeth y DU: manylion y newidiadau i'r llywodraeth

Ar ôl ad-drefnu Llywodraeth y DU ym mis Medi, Michael Gove AS yw'r Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer Codi'r Gwastad, Tai a Chymunedau a'r Gweinidog Cysylltiadau Rhynglywodraethol. Neil O'Brien AS yw'r Gweinidog ar gyfer Codi'r Gwastad, yr Undeb a'r Cyfansoddiad.

Bydd y Prif Weinidog yn cadeirio Pwyllgor Cabinet ar Strategaeth yr Undeb, tra bydd yr Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer Codi'r Gwastad, Tai a Chymunedau yn cadeirio Pwyllgor ar Weithredu Polisïau'r Undeb.

8.3. Dyfarniad y Goruchaf Lys: cymhwysedd deddfwriaethol

Mae'r Goruchaf Lys wedi dyfarnu'n unfrydol y byddai nifer o ddarpariaethau dau Fil a basiwyd gan Senedd yr Alban y tu allan i'w chymhwysedd deddfwriaethol. Roedd y ddau Fil yn ceisio cynnwys cytundebau rhyngwladol yng nghyfraith yr Alban.

Mae'r dyfarniad yn debygol o fod yn berthnasol i'r Senedd yn gyffredinol wrth iddi gadarnhau cwmpas ei chymhwysedd.

Gallai hefyd fod yn arbennig o berthnasol i Raglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru, sy'n cynnwys ymrwymiadau i ymgorffori dau gytuniad rhyngwladol yng

nghyfraith Cymru, sef Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar hawliau pobl ag anableddau, a Dileu pob ffurf ar wahaniaethu yn erbyn menywod.

Cefndir

Pasiodd Senedd yr Alban ddau Fil yn cynnwys fersiynau o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a'r Siarter Ewropeaidd ar Hunanlywodraeth Leol.

Cyfeiriwyd y ddau Fil at y Goruchaf Lys gan y Twrnai Cyffredinol ac Eiriolwr Cyffredinol yr Alban (y mae'r ddau ohonynt yn aelodau o Lywodraeth y DU) i benderfynu a fyddai darpariaethau penodol o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd yr Alban.

Fodd bynnag, ni nodwyd unrhyw broblem â phenderfyniad cyffredinol Senedd yr Alban i ymgorffori cytundebau rhyngwladol yng nghyfraith yr Alban wrth gyfeirio'r Biliau hyn. Cydnabu'r dyfarniad mai mater i Senedd yr Alban oedd hynny.

Darpariaethau statudol perthnasol sy'n rhoi cyd-destun

Mae adran 28(7) o Ddeddf yr Alban 1998 yn darparu **nad yw** gallu Senedd yr Alban i ddeddfu yn **effeithio ar bŵer Senedd y DU i ddeddfu ar gyfer yr Alban**. Adlewyrchir hyn i Gymru yn Adran 107(5) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Yn gyffredinol, ni all Deddf gan Senedd yr Alban addasu Deddf yr Alban 1998. Mae eithriadau i'r rheol hon, ond nid ydynt yn cynnwys adran 28(7).

Mae'n dilyn felly na all Deddf gan Senedd yr Alban addasu gallu Llywodraeth y DU i ddeddfu ar gyfer yr Alban, oherwydd y byddai hynny'r tu allan i'w chymhwysedd deddfwriaethol.

Darpariaethau a ystyriwyd gan y Goruchaf Lys

Roedd dyfarniad y Goruchaf Lys yn canolbwyntio ar Fil Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a **defnyddiwyd yr un rhesymeg wrth drafod y darpariaethau cyfatebol ym Mil y Siarter Ewropeaidd ar Hunanlywodraeth Leol**.

Roedd Bil Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn cynnwys y darpariaethau a ganlyn (ymhlith eraill):

- ei gwneud yn ofynnol i ddeddfwriaeth gael ei darllen a'i rhoi ar waith mewn ffordd sy'n gydnaws â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn i'r graddau y mae'n bosibl gwneud hynny (**darpariaeth ddehongli**);
- grymuso llysoedd i wneud datganiadau dileu sy'n darparu y bydd deddfwriaeth a basiwyd cyn i'r Bil ddod i rym yn peidio â bod yn gyfraith i'r graddau y mae'n anghydnaws â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (**darpariaeth ddileu**); a
- darparu i lysoedd wneud datganiadau anghydnawsedd ar gyfer deddfwriaeth y bernir ei bod yn anghydnaws â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn sy'n cael Cydsyniad Brenhinol ar ôl i'r Bil ddod i rym (**darpariaeth anghydnawsedd**).

Yn ogystal â Deddfau Senedd yr Alban, **byddai'r holl ddarpariaethau hyn yr un mor gymwys i Ddeddfau Senedd y DU sydd o fewn meysydd datganoledig**. Felly, pe bai'n cael ei basio, byddai'r Bil yn caniatáu i lysoedd ddileu Deddfau Senedd y DU, fel yr oeddent yn gymwys yn yr Alban, a datgan eu bod yn anghydnaws â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

Un cwestiwn allweddol yn ystod yr achos oedd a oedd hyn yn addasu gallu Senedd y DU i ddeddfu ar gyfer yr Alban o dan adran 28(7) o Ddeddf yr Alban 1998. **Dyfarnodd y Goruchaf Lys** ei fod yn addasu gallu Senedd y DU ac **y byddai'r tair darpariaeth, felly, y tu allan i gymhwysedd deddfwriaethol Senedd yr Alban.**

Dadansoddiad

Mae nifer o arbenigwyr cyfansoddiadol amlwg wedi nodi bod y dyfarniad yn un arwyddocaol.

Mae'r sylwebaeth wedi canolbwyntio'n bennaf ar ddehongliad eang y Goruchaf Lys o adran 28(7) o Ddeddf yr Alban 1998. Fel y trafodir uchod, dyma'r ddarpariaeth sy'n diogelu gallu Llywodraeth y DU i ddeddfu ar gyfer yr Alban. Mae'r ffordd yr ymdriniodd y Goruchaf Lys ag adran 28(7) yn berthnasol i'r Senedd gan fod darpariaeth gyfatebol yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006.

Mae'r Athro Mark Elliot o Brifysgol Caergrawnt yn awgrymu mewn erthygl bod y Goruchaf Lys wedi dehongli bod Adran 28(7) yn gwneud mwy na dim ond diogelu'r cysyniad o sofraniaeth seneddol. Mae e'n credu ei bod bellach yn

cwmpasu syniad pellgyrhaeddol ac amhenodol bod Senedd y DU yn cadw pŵer diamod, sy'n **gweithredu fel sail ar gyfer cyfyngiadau mwy pellgyrhaeddol ar y setliadau datganoli**.

Er enghraifft, roedd y llys o'r farn y byddai'r **ddarpariaeth ddehongli** (gweler yr esboniad uchod) yn gosod cyfyngiad ar bŵer deddfwriaethol Senedd y DU. Roedd hynny ar y sail ei bod yn ei gwneud yn ofynnol i lysoedd, o dan rai amgylchiadau, roi ystyr ac effaith i ddarpariaethau statudol sy'n gwrthdaro â'r hyn a fwriadwyd gan Senedd y DU. Felly, mae'r dyfarniad yn awgrymu na all deddfwriaeth y Senedd wneud darpariaeth ynghylch dehongli Deddfau'r DU fel y maent yn gymwys yng Nghymru, hyd yn oed mewn meysydd datganoledig. Gallai hyn ddylanwadu ar ddull Llywodraeth Cymru o ymgorffori fersiynau o gytundebau rhyngwladol yng nghyfraith Cymru, fel y cynigiwyd yn ei Rhaglen Lywodraethu.

Mae nifer o academyddion hefyd wedi awgrymu bod y dyfarniad yn bychanu natur gyfansoddiadol y Deddfau datganoli. Nododd y dyfarniad fod yn rhaid dehongli Deddf yr Alban yn yr un modd ag unrhyw statud arall ac yn ôl ei geiriau cyffredin. Dywed rhai fod yr achos hwn yn mynd ati'n bendant i wrthod dyfarniadau cynharach a oedd yn tynnu sylw at natur gyfansoddiadol Deddfau datganoli. Mae her gyfreithiol Llywodraeth Cymru i Ddeddf Marchnad Fewnol y DU wedi'i seilio i raddau helaeth ar natur gyfansoddiadol Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

9. Cyfiawnder

9.1. Llywodraeth Cymru

Rhoddodd y Cwnsler Cyffredinol y wybodaeth ddiweddaraf i'r Senedd am waith Llywodraeth Cymru ar gyfiawnder mewn datganiad ar 30 Medi, gan dynnu sylw at waith parhaus yn y meysydd a ganlyn:

- y Glasbrintiau Cyfiawnder Ieuenctid a Throseddwyr Benywaidd;

- cyfiawnder teuluol, gan gynnwys peilot Llys Cyffuriau ac Alcohol Teuluol yng Nghaerdydd a phrofi rhaglen trefniadau plant ddiwygiedig yng Ngogledd Cymru;
- cymorth i'r sector cyfreithiol;
- sefydlu Cyngor Cyfraith Cymru, o dan lywyddiaeth yr Arglwydd Lloyd-Jones, un o farnwyr y Goruchaf Lys;
- ymgynghoriad Comisiwn y Gyfraith ar Dribiwnlysoedd yng Nghymru.

Dywedodd y Cwnsler Cyffredinol ei fod yn disgwyl i'r trafodaethau â Llywodraeth y DU ynghylch argymhellion y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru ddechrau'n fuan.

Awgrymodd yr Arglwydd Wolfson QC, un o Weinidogion y DU fod y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn edrych ymlaen at weithio gyda Llywodraeth Cymru ar argymhellion y Comisiwn mewn araith i Gynhadledd Cymru'r Gyfraith.

9.2. Llywodraeth y DU

Nododd yr Arglwydd Wolfson QC flaenoriaethau'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn ei araith i gynhadledd Cymru'r Gyfraith, gan gynnwys cymorth ar gyfer y meysydd a ganlyn:

- adfer llysoedd a thribiwnlysoedd yn dilyn y pandemig;
- datblygu technoleg gyfreithiol;
- gwasanaethau cyfreithiol rhyngwladol a masnach ryngwladol; a
- datblygu mecanweithiau datrys anghydfodau.

Cyhoeddodd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi y byddai'n datblygu gwasanaeth cymorth digidol ar gyfer mynediad at wasanaethau llysoedd a thribiwnlysoedd (gan gynnwys cymorth yn Gymraeg).

9.3. Tribiwnlysoedd Cymru

Gosodwyd trydydd adroddiad blynyddol Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru gerbron y Senedd ar 23 Medi.

Mae adroddiadau blynyddol y rhan fwyaf o Dribiwnlysoedd Cymru ar gyfer 2020/21 bellach wedi'u cyhoeddi hefyd. Mae'r adroddiadau'n trafod sut y mae'r tribiwnlysoedd wedi rheoli effaith y pandemig yn ogystal â nodi gwybodaeth am wariant, gweithrediad a pherfformiad.

- Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru
- Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru
- Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru
- Tribiwnlys y Gymraeg
- Panel Dyfarnu Cymru

Newidiwyd enw'r Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig i Dribiwnlys Addysg Cymru yn gynharach eleni. Nid yw adroddiad blynyddol 2020/21 wedi'i gyhoeddi eto.